# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 17 Mawrth 2015**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda

(254)v4

**1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**3 Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch Mynediad at Gyllid (30 munud)**

**4 Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Darpariaethau Canlyniadol) 2015 (15 munud)**

**NDM5724 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Darpariaethau Canlyniadol) 2015 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a

osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Chwefror 2015.

**Dogfennau Ategol**
Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Darpariaethau Canlyniadol) 2015
Memorandwm Esboniadol

**5 Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Diwygio) 2015 (15 munud)**

**NDM5723 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2015 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Chwefror 2015.

**Dogfennau Ategol**
Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2015 (Saesneg yn unig)
Memorandwm Esboniadol (Saesneg yn unig)
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**6 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer y Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth (Memorandwm rhif 4): Diwygiad i Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996 mewn perthynas â diogelu chwythwyr chwiban yn y GIG (30 munud)**

**NDM5722 Mark Drakeford (Gorllewin Caerdydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth, sy'n ymwneud â gwahardd cyflogwr yn y GIG rhag gwahaniaethu yn erbyn ymgeisydd sydd wedi chwythu'r chwiban o'r blaen ac sy'n darparu rhwymedïau, gan gynnwys dyfarnu iawndal, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Gellir cael copi o'r Bil ar wefan Senedd y DU:

http://services.parliament.uk/bills/2014-

15/smallbusinessenterpriseandemployment.html (Saesneg yn unig)

**7 Dadl Cyfnod 4 ar y Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (15 munud)**

**NDM5725 Carl Saregant (Alun a Glannau Dyfrdwy)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.47:

Yn cymeradwyo Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

**Dogfennau Ategol**
Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), fel y'i diwygiwyd ar ôl Cyfnod 3
Memorandwm Esboniadol fel y'i Diwygiwyd

**8 Dadl ar Adroddiad Blynyddol Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru 2013-2014 (60 munud)**

**NDM5720 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad blynyddol Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ar gyfer 2013-14.

Gosodwyd copi o'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Mawrth 2015.

**Dogfen Ategol**
Adroddiad blynyddol Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ar gyfer 2013-14

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi'r heriau recriwtio sy'n wynebu'r sector gofal ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda'r sector a chymryd camau i fynd i'r afael â'r heriau hyn.

**Gwelliant 2 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn mynegi pryder ynglŷn ag amrywioldeb perfformiad adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ledled Cymru.

**Gwelliant 3 – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi pwysigrwydd adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth er mwyn helpu i wella safonau gwasanaethau gofal cymdeithasol.

**Gwelliant 4 – Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn edrych ar sut y mae cartrefi gofal yn gweithio gyda byrddau iechyd lleol i atal derbyniadau diangen i ysbytai.

**9 Dadl ar Gyflog Cyfartal (60 munud)**

**NDM5721 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cydnabod gwerth hyrwyddo Cyflog Cyfartal fel prif flaenoriaeth ar gyfer sicrhau cydraddoldeb rhywiol ac yn nodi'r cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru hyd yn hyn wrth ymdrin ag achosion anghydraddoldeb cyflog rhwng y rhywiau.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu ffigurau a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ym mis Tachwedd 2014 yn dangos bod y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar ei lefel isaf erioed.

**Gwelliant 2 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r ffaith bod y ffigurau diweddaraf gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos bod y bwlch cyflog llawn amser rhwng dynion a menywod yn fwy cul nag y mae wedi bod ers dechrau casglu cofnodion cymharol ym 1997.

**Gwelliant 3 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu gwaith Gweinidog Cydraddoldebau Llywodraeth y DU i sicrhau y bydd angen i gwmnïau sy'n cyflogi mwy na 250 o weithwyr gyhoeddi'r cyflog cyfartalog ar gyfer gweithwyr gwrywaidd a benywaidd, neu wynebu dirwy o hyd at £5,000.

**10 Cyfnod pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 18 Mawrth 2015